# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 11/7/17

**YN BRESENNOL:** Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Dewi Owen a Catrin Wager

**SWYDDOGION:** Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Nia Meleri Edwards (Swyddog Datblygu a Rheoli newid), Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau) a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Anwen J. Davies a Gareth A. Roberts

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD Ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am 2017-18**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4ydd Ebrill 2017 fel rhai cywir.

## 6. ROL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Derbyniwyd cyflwyniad byr gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu rôl y Pwyllgor hwn. Nodwyd dyletswydd y Pwyllgor i gynorthwyo wrth ddatblygu cefnogaeth i aelodau gan gynrychioli eu cyd-aelodau, sicrhau bod staff ac adnoddau digonol yn cael eu darparu i gefnogi aelodau, ac adrodd i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Cyflwynwyd ystadegau am gyfansoddiad y Cyngor wedi'r etholiad ym Mai 2017:
- Bod 24 aelod newydd wedi eu hethol yn 2017 o'i gymharu â 30 yn 2012
- Bod llai o aelodau benywaidd yn aelodau o'r Cyngor wedi'r etholiad o'i gymharu â 2015. Bellach, 23% o aelodau Cyngor Gwynedd sydd yn fenywaidd.
- Bod y ganran o aelodau gwrywaidd y Cyngor sydd rhwng 45 a 65 oed wedi cynyddu o 18.18%.
- Nad oedd aelod o'r Cyngor yn y grŵp oedran 18-24 yn 2017

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Nodwyd ei fod yn ddiddorol fod y nifer o aelodau hŷn wedi cynyddu.
- Nad oedd yn ymddangos fod pobl ifanc yn cymryd diddordeb yn y broses ddemocrataidd, ac y byddai'n fuddiol petai'r Pwyllgor yn ystyried ymgysylltu gyda charfannau o bobl ifanc er mwyn eu haddysgu am y broses ddemocrataidd a'u hannog i gymryd rhan.

- Nodwyd siom nad oedd yn ymddangos i waith caled yr Is-grŵp Amrywiaeth mewn Democratiaeth ddod a newid i ystadegau y Cyngor newydd, er y nodwyd o'r dechrau y byddai'n anodd iawn profi effaith gwaith y grŵp. Byddai'n fuddiol gweld os oedd dadansoddiad oed/rhyw ar gael ar gyfer holl ymgeiswyr yr etholiad ym Mai 2017.
- Nodwyd fod gwahanol adegau mewn bywyd, megis magu plant ifanc, yn medru bod yn rhwystr i rai fyddai'n dymuno bod yn gynghorwyr.

## 7. RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn awgrymu eitemau posib ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor yn 2017-18.

Yn dilyn trafodaeth, ychwanegwyd y materion canlynol i raglen waith y Pwyllgor:
- Cydweithio'n agosach gyda'r Pwyllgor Safonau, gan gynnwys derbyn adroddiad ar waith y Pwyllgor hwnnw.
- Gwaith ymchwil i egluro'r amgylchiadau sy'n medru effeithio ar gyfraddau presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor.
- Bwlio a chyfryngau cymdeithasol
- Ehangu gwaith hybu democratiaeth
- Ymchwilio i weld sut allai Aelodau etholedig y Cyngor gyfrannu tuag at unrhyw arbedion pellach.

**PENDERFYNWYD: Ychwanegu'r eitemau uchod i'r rhaglen waith**

## 8. CROESO AC ANWYTHO

Cyflwynwyd ar lafar gefndir y sesiynau a gynhaliwyd i anwytho'r Aelodau wedi'r etholiad ym Mai 2017. Nodwyd fod gwaith caled wedi ei wneud er mwyn darparu sesiynau effeithiol a bod hynny wedi talu ar ei ganfed gan fod sylwadau positif wedi eu derbyn gan Aelodau newydd ac Aelodau oedd yn dychwelyd wedi'r etholiad.

Cafwyd trafodaeth ar sut y gellid addasu'r sesiynau anwytho ymhellach i'r dyfodol er mwyn eu gwella. Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:
- Nodwyd y byddai'n fuddiol derbyn arweiniad ar waith ward, yn enwedig ar sut i gadw trigolion Gwynedd yn ganolog
- Byddai taith o gwmpas yr adeiladau er mwyn ymgyfarwyddo wedi bod yn fuddiol.
- Byddai'n fuddiol petai gwybodaeth gryno am bwyllgorau a'u swyddogaethau ar gael i'r Aelodau.
- Bod angen gwella'r cyfathrebu rhwng adrannau'r Cyngor a'r Aelodau pan fydd gwaith yn cael ei wneud neu ddigwyddiadau yn cael eu cynnal mewn wardiau penodol.

## 9. DYSGU A DATBLYGU

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Dysgu a Datblygu yn diweddaru aelodau'r Pwyllgor ar y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn oedd ar y gweill, gan geisio arweiniad a sylwadau ar ddatblygiadau pellach. Gan gydnabod a diolch am gyfraniad y Pwyllgor hwn wrth ddatblygu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2017-18, pwysleisiodd fod Dysgu a Datblygu yn llawer ehangach na sesiynau hyfforddiant ffurfiol. Nododd bod sesiynau adnabod anghenion dysgu ar gael i'r Aelodau. Nododd hefyd fod cynllun Mentora a Chymhelliant ar gael i'r Aelodau, ac roedd nifer eisoes wedi dangos diddordeb.

Mewn ymatebi gwestiynau gan aelodau'r pwyllgor nododd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r pwyntiau canlynol:

- Er nad oedd y cynllun mentora a chymhelliant yn defnyddio cyn aelodau, nad oedd hynny yn amhosib. Er hynny, byddai'n rhaid i unrhyw fentoriaid ddilyn arfer da
- 'Roedd y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wedi bod yn ceisio trefnu sesiynau llai a'u cynnal yn amlach, fel bod y rhai oedd yn mynychu yn cael y budd mwyaf ac yn cael dewis o nifer o amseroedd er mwyn cyfleuster. Byddai sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu os oedd digon o alw.

Sylwadau pellach yn codi o'r drafodaeth:
- Bod angen manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o ddatblygiadau ym myd technoleg.
- Bod angen hyfforddiant pellach a mwy o opsiynau i aelodau unigol er mwyn cael y gwerth a budd mwyaf o'r cyfarpar sydd wedi ei rannu i'r Cynghorwyr.
- Bod cynnal cyfarfodydd trwy fideo gynadleddau yn gallu gweithio'n dda gyda cadeirio effeithiol.

Mewn ymateb nododd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsffurfio ei fod yn bwysig fod yr aelodau yn cyfathrebu unrhyw rwystrau a phroblemau oedd yn codi eu pennau gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Pwysleisiodd hefyd rôl y Pwyllgor hwn wrth yrru datblygiadau yn eu blaen.

**PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.00 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**